

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Llangain

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Llangain yn gymuned ddysgu hapus a chroesawgar, sy'n gosod sylfaen gadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau sylfaenol. Mae disgyblion yn ofalgar ac yn ystyriol o'i gilydd, sy'n cyfrannu at yr awyrgylch teuluol. Mae staff yn gwrando'n ystyriol ar ddisgyblion os oes ganddynt bryderon, gan feithrin ymdeimlad o barch a chwrteisi at eraill. O ganlyniad, mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda iawn.

Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth wedi adnabod cryfderau'r ffederasiwn ac wedi gosod gweithdrefnau pwrpasol i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella. Er enghraifft, drwy hyfforddi a chefnogi'r penaethiaid cynorthwyol i weithredu'n fwy strategol. Mae'r penaethiaid cynorthwyol ar draws y ffederasiwn yn cydweithio'n dda ac yn hybu diwylliant o rannu ac efelychu arferion addysgu a dysgu effeithiol ymhlith staff er mwyn gwella profiadau a medrau'r disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn yn yr ysgol. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn bwrpasol wrth aeddfedu drwy'r ysgol. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau diddorol i ymgysylltu â diddordeb disgyblion. Er hyn, nid yw'r athrawon bob tro'n cynllunio'n ddigon systematig ar gyfer darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau hyd eithaf eu gallu.

Drwy gynllunio bwriadus y staff, mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau a'u hannibyniaeth yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn cydweithio i ddatrys problemau drostynt eu hunain yn effeithiol. Mae cyfleoedd buddiol i'r disgyblion hynaf rannu syniadau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei ddysgu am eu themâu. Er hynny, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i gyflawni tasgau a chyflwyno eu gwaith.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ffederasiwn a'i feysydd i'w gwella. Maent yn gefnogol i'r disgyblion, y staff, a'r gymuned leol, ac yn weithredol wrth ymdrechu i leihau effaith tlodi ar y profiadau dysgu. Fodd bynnag, nid yw aelodau'r corff yn cymryd rhan lawn yn y broses hunanwerthuso er mwyn monitro effaith y ddarpariaeth ar gyflawniad y disgyblion yn ddigon trylwyr.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 3 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel**

**A2 Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau hyd eithaf eu gallu**

**A3 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.